

1

Sut mae COVID-19 yn effeithio ar oedolion mewn perygl?

Yng nghyd-destun presennol COVID-19, mae twyll a sgamiau yn fwy tebygol gyda grwpiau agored i niwed yn y gymuned yn fwy unig, yn enwedig yr henoed a'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl, anawsterau dysgu, caethiwed i gyffuriau, neu bryder a/neu iselder.



Diogelu Oedolion sydd mewn perygl o Sgamiau yn ystod COVID-19



2

Pa fath o gam-drin maen nhw'n debygol o'i ddiodef?

Y math mwyaf tebygol o gam-drin i ddigwydd yn sgil COVID-19 ydy cam-drin ariannol. Mae sgamiau yr adroddwyd amdanynt hyd yma'n cynnwys newyddion ffug, yswiriant ffug, negeseuon testun ffug a chynlluniau ad-dalu treth, a gwerthu moddion, brechiadau a phrofion yn y cartref ffug ar-lein. Mae'n fwy tebygol hefyd y bydd gwasanaethau glanhau a gweithwyr iechyd ffug yn mynd o ddrws i ddrws.

7

Ble gallaf gael gwybod mwy?

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ddiogelu oedolion yn ystod COVID-19 [yma](https://www.yma.gov.uk). Gellir gweld ein polisiau rhanbarthol ar ddiogelu oedolion yn <https://www.cysur.wales/regional-policies-procedures/>. Gellwch hefyd adrodd am eich pryderon wrth Heddlu Dyfed Powys drwy ffonio 101.

3

Beth am wirfoddolwyr?

Mae yna raglenni gwirfoddol ardderchog wedi cael eu sefydlu i gynorthwyo pobl agored i niwed efo siopa, glanhau, anghenion meddygol ac yn y blaen. Er bod llawer o'r rhain yn weithredoedd da, diffuant, mae yna nifer fechan o bobl a all gymryd mantais o gynllun o'r fath i gael mynediad at oedolion mewn perygl a'u cam-drin.

6

Beth ddylwn i ei wneud fel ymarferwr?

Dylai ymarferwyr, y mae defnyddiwr gwasanaeth yn dweud wrthynt am gam-driniaeth, wrandod'n astud, heb ofyn unrhyw gwestiynau arweiniol, torri ar draws na chymryd yn ganiataol y sefyllfa y mae'r oedolyn mewn perygl ynddi. Dylent gofnodi'r pryderon a gweithredu arnynt yn ddiymdroi. Ystyriwch a oes gan y person gapasiti ac a oes angen asesiad ffurfiol.

5

Sut gallaf i helpu?

Os ydych chi'n poeni am rywun, siaradwch ag ef/hi am y peryglon; e.e. rhowch gyngor i beidio ag ateb y drws i bobl ddieithr, a rhybudd ynglŷn â sgamiau ar-lein a thros y ffôn. Cynghorwch i beidio â rhoi ei fanylion banc ef/hi i neb heb fod yn sicr eu bod yn onest. Byddwch yn ofalus i beidio â chodi ofn ar y person; ond ei wneud yn ymwybodol o'r risgiau a sut i'w hosgoi. Anogwch ef/hi i ddefnyddio cymorth swyddogol, e.e. drwy Ganolfannau'r Awdurdod Lleol yn hytrach na chymorth answyddogol.

4

Fydd llai o wasanaethau yn cael effaith?

Mae asiantaethau yn gwneud popeth posibl i gynnal busnes fel arfer, ond mae'r pwysau ar y gwasanaethau yn sgil COVID-19 yn golygu mai'r anghenion gofal mwyaf brys sy'n cael blaenoriaeth. Mae hyn yn medru peri i'r rheiny nad ydynt yn gallu cael cymorth ddibynnu ar ffynonellau eraill am gymorth, cyfle y gall unigolion sy'n cam-drin fanteisio arno.